# Sicrhau adnoddau ar gyfer mynd i’r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’ch gallu i nodi ffynonellau cyllid ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith gydag unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol.

Mae’n cynnwys cyflwyno cynigion ar gyfer cyllid a mathau eraill o gymorth, a thrafod telerau eich cynnig er mwyn dod i derfyn llwyddiannus.

Fel rhan o’r safon hon, bydd disgwyl i chi sefydlu perthynas waith dda gyda deiliaid cyllid gwirioneddol a darpar ddeiliaid cyllid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi adnoddau y mae eu hangen i gyflawni mentrau arfaethedig eich sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol, gan gynnwys: • ffynonellau cyllid ac adnoddau
• amcanion a buddiannau'r rhai sy'n darparu cyllid ac adnoddau
• costau a risgiau i'r rhai a all ddarparu cyllid ac adnoddau
2. creu rhestr o unigolion a sefydliadau a all ddarparu adnoddau sy'n cefnogi mentrau arfaethedig eich sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
3. paratoi cynigion wedi'u costio ar gyfer cyllid ac adnoddau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
4. cyflwyno gwybodaeth i bobl eraill berthnasol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5.
   5.1 cytuno ar gynigion ac argymhellion ar gyfer cyllid ac adnoddau gyda rhanddeiliaid perthnasol
6. cyflwyno cynigion, bidiau a cheisiadau i ddarparwyr cyllid ac adnoddau eraill yn unol â gweithdrefnau ac amserlenni gofynnol
7. ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth i egluro bidiau a chynigion yn unol â gweithdrefnau ac amserlenni gofynnol
8. cytuno ar drefniadau cytundebol gyda darparwyr cyllid ac adnoddau eraill yn unol â bidiau a chynigion cytunedig
9. rhoi gwybod i bobl berthnasol eraill am ganlyniad bidiau, cynigion a cheisiadau yn unol â gofynion ac amserlenni gofynnol
10. rhoi gwybod i'r rhai sy'n defnyddio adnoddau am unrhyw delerau ac amodau sy'n berthnasol i'r defnydd o adnoddau, yn unol â threfniadau cytundebol cytunedig
11. datblygu cynlluniau wrth gefn sy'n mynd i'r afael â materion posibl sy'n effeithio ar gyllid ac adnoddau gofynnol
12. monitro effeithiolrwydd prosesau canfod ar gyfer mentrau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
13. diwygio prosesau canfod os bydd angen, mewn ffyrdd sy'n gwella gwaith a phrosesau yn y dyfodol
14. monitro pobl eraill sy'n ymwneud â sicrhau adnoddau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol

15.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt.
3. gofynion yn gysylltiedig â chyllid ac adnoddau ar gyfer rhaglenni i fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol, a’u heffaith ar eich maes gweithredu
4. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau eraill y gallech weithio gyda nhw, a’u rôl
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a’ch cymhwysedd proffesiynol
6. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn y gymuned leol
7. arwyddion o gam-drin a’r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
8. effaith cam-drin ar bawb y mae wedi effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion a dibynyddion.
9. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi’u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio.
10. ffynonellau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael i bobl sydd wedi’u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
11. mentrau cenedlaethol a lleol a’u heffaith ar wasanaethau sydd â’r nod o fynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn eich cymuned
12. amcanion, strategaethau a chynlluniau eich sefydliad
13. mentrau arfaethedig eich sefydliad, gan gynnwys y rhai sydd angen cyllid ac adnoddau
14. darparwyr cyllid ac adnoddau eraill a ddefnyddir gan eich sefydliad
15. darparwyr posibl eraill cyllid a’u buddion a’u risgiau cysylltiedig
16. polisïau a gweithdrefnau’r sefydliad ar gyfer caffael adnoddau
17. meini prawf sefydliadol ar gyfer dewis mathau o gyllid ac adnoddau eraill, a dewis eu darparwyr
18. ffynonellau gwybodaeth am gyfleoedd adnoddau, gan gynnwys cyfleoedd o fewn y sectorau statudol ac elusennol
19. sut i greu achos busnes
20. sut i hyrwyddo buddion eich mentrau arfaethedig
21. amcanion a chylch gwaith sefydliadau cyllido ac unrhyw gyfyngiadau ar y ffordd

y maent yn gweithredu
22. gwybodaeth y mae ar sefydliadau cyllido eu hangen, a'u templedi, eu hoffer a'u gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno bidiau, ceisiadau a chynigion
23. y bobl y dylid ymgynghori â nhw ynghylch cynigion ac argymhellion am gael cyllid ac adnoddau
24. gwahanol fathau o gytundebau a threfniadau cytundebol gyda darparwyr cyllid a beth ddylai'r rhain ei gynnwys
25. camau y gall fod angen eu cymryd os bydd prinder cyllid
26. problemau cyffredin a all ddigwydd wrth gael cyllid ac adnoddau
27. pwysigrwydd cynllunio wrth gefn ar gyfer cael cyllid ac adnoddau

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**

Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ystyriol o Drawma**
Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso.

SFJBG203

Sicrhau adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJBG203 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | rhywiol; unigolyn; cyllid; ariannu; arian; cymorth; adnoddau |